
# Gwybodaeth i Gleifion

# Prostadectomi Radical

# Adran Wroleg

**Beth yw Prostadectomi Radical?**

Tynnu'r chwarren brostad, fesiclau semen a rhywfaint o feinwe o'i chwmpas mewn ymgais i gael gwared ar ganser y prostad - **gweler isod**.




**Beth yw budd y lawdriniaeth hon?**

Triniaeth sy'n ceisio gwella eich canser prostad.

**A oes unrhyw beryglon? Cyffredin**

Haint oherwydd mewnosod cathetr wrinol/draen briw dros dro. Anymataliaeth wrinol dros dro neu barhaol, i raddau amrywiol, sydd angen padiau neu lawdriniaeth bellach.
Cyfle uchel o nam ar godiadau oherwydd niwed i'r nerf yn ystod llawdriniaeth.
Newid teimlad mewn orgasm (uchafbwynt rhywiol) ac absenoldeb semen ar had-daflu, gan achosi anffrwythlondeb.

**Achlysurol**

Colli gwaed, sydd angen trallwysiad.
Mae rhywfaint o ganser yn cael ei adael ar ôl sydd angen triniaeth bellach.
Gall yr uniad rhwng y bledren a'r wrethra (pibell ddŵr) gulhau (culfan). Os bydd hyn yn digwydd, efallai y bydd angen llawdriniaeth bellach arnoch.

**Prin**

Problemau anesthetig/ cardiofasgwlaidd sydd angen mynediad gofal dwys. Poen, haint neu dorgest (chwydd) yn ardal y toriad llawdriniaeth.
Anymataliaeth wrinol hirdymor barhaol sydd angen llawdriniaeth arall i wella.
Anaf rhefrol (twll y pen ôl); yn anaml iawn y bydd angen colostomi dros dro.
Oherwydd natur eich llawdriniaeth, efallai y bydd gofyn i chi gael dadansoddiad nodau lymff. O ganlyniad, gall lymffocele (casgliad o hylif lymffatig) ddigwydd. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y bydd angen i'r ardal hon gael ei draenio o dan anesthetig lleol.

**A oes triniaethau amgen?**

Monitro gweithredol (dim triniaeth weithredol ar unwaith, ond bydd monitro rheolaidd ar eich prawf gwaed antigen penodol i'r prostad (PSA)), radiotherapi, bracitherapi (rhoi hadau ymbelydrol yn y prostad) neu dynnu'r prostad gan ddefnyddio llawdriniaeth twll clo (laprosgopig) neu drwy doriad ar y perinëwm (yr ardal y tu ôl i'r sgrotwm).

Os yw'r opsiynau hyn yn addas i chi, bydd eich meddyg wedi eu trafod gyda chi ac wedi rhoi gwybodaeth i chi yn eu hesbonio'n fanylach.

**Beth sy'n digwydd cyn y lawdriniaeth?**

Cyn eich llawdriniaeth, gofynnir i chi fynychu'r Clinig Cyn Derbyn. Mae hyn er mwyn gwirio eich bod yn ffit ar gyfer eich llawdriniaeth. Gofynnir cwestiynau i chi am eich iechyd cyffredinol a byddwch yn cael rhai neu'r cyfan o'r profion canlynol: profion gwaed ac wrin, pelydr-x y frest ac ECG (olrhain y galon). Profion arferol yw'r rhain cyn llawdriniaeth. Byddwch hefyd yn cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau.

**Triniaeth Ychwanegol**

Ar ôl eich llawdriniaeth, cychwynnir rhoi pigiadau isgroenol dyddiol i chi o Fragmin (Daletparin); mae hyn hefyd yn helpu i leihau eich risg o geuladau gwaed. Bydd y nyrs ar y ward yn eich dysgu sut i wneud hyn eich hun gan fod angen parhau â'r driniaeth hon am 4 wythnos. Mae tystiolaeth gyfredol gan y Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Iechyd Clinigol (NICE) yn argymell y driniaeth hon i gleifion sy'n cael llawdriniaeth ganser fawr er mwyn lleihau eu risg o ddatblygu thrombosis gwythiennau dwfn (DVT) neu emboledd ysgyfeiniol (PE).

**Eich llawdriniaeth**

Cewch eich derbyn i'r ward y diwrnod cyn y lawdriniaeth neu ar y bore ei hun; cewch wybod am hyn yn y clinig cyn derbyn.
Bydd anesthetydd yn eich gweld chi ar yr adeg hon i drafod eich anesthetig a'ch rheolaeth poen. Unwaith eto, bydd meddyg yn trafod y lawdriniaeth a chymhlethdodau posibl, yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych, ac yn gofyn ichi lofnodi'ch ffurflen gydsynio eto.

Gofynnir i chi beidio â bwyta nac yfed unrhyw hylifau nad ydynt yn glir, fel cawl, llaeth ayb., am 6 awr cyn eich llawdriniaeth. Gallwch gael hylifau clir (dŵr/diod o 'squash') hyd at 2 awr cyn eich llawdriniaeth. Ar ôl hyn gofynnir i chi beidio ag yfed unrhyw beth pellach**. Os ydych chi'n ddiabetig sy'n ddibynnol ar inswlin, bydd angen cyfarwyddyd arbennig arnoch chi, trafodwch hyn gyda'ch nyrs.**


Byddwch yn cael 2 dawddgyffur a fydd yn gwneud i chi agor eich coluddion; bydd y carthydd hwn yn sicrhau bod eich coluddyn yn lân cyn eich llawdriniaeth.

Cyn mynd i'r theatr, gofynnir i chi gael cawod a gwisgo gŵn ysbyty a hosanau arbennig. Mae'r hosanau hyn yn helpu i leihau'ch risg o gael ceuladau yn eich coesau. Os ydych chi'n teimlo'n bryderus, a'i fod yn briodol, efallai y caiff meddyginiaeth ymlaciol (pre-med) ei bresgreibio i chi; rhoddir hwn i chi ar y ward cyn i chi fynd i'r theatr. Bydd nyrs yn mynd gyda chi i'r theatr lle cewch eich cludo i'r ystafell anesthetig lle byddwch yn cael eich anesthetig.


**Beth mae'r lawdriniaeth yn ei chynnwys?**

Gwneir toriad o islaw'ch botwm bol i lawr i ran o'ch bol sydd union uwchben gwaelod eich pidyn - **gweler y diagram**. Mae'r chwarren brostad yn gorwedd yn y pelfis ychydig o dan y bledren. Mae eich wrethra (pibell ddŵr) yn rhedeg trwy ei chanol. Yn ystod y lawdriniaeth, bydd eich chwarren brostad a'ch fesiclau semen (sachau bach lle mae semen yn cael eu storio) yn cael eu tynnu. Mae'r nerfau sy'n eich galluogi i gael codiad yn gorwedd o amgylch chwarren y prostad. Os yw'n briodol, ceisir achub y nerfau hyn i helpu i wella'r siawns y bydd eich codiadau'n dychwelyd ar ôl y lawdriniaeth. Os yw'n edrych fel bod y canser ger y nerfau, byddant yn eu tynnu.

Caiff yr wrethra ei gysylltu yn ôl i'r bledren a gosodir cathetr, gyda bag draenio ynghlwm - **gweler y diagram isod**. Bydd y cathetr yn cael ei adael i mewn am 2-3 wythnos. Bydd hyn yn helpu i'r uniad wella.



A cut is made in the abdomen



The urethra is joined to the bladder and a catheter is inserted

**Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd caredig y wasg iechyd**

Cymer y lawdriniaeth oddeutu 2-3 awr. Ar ôl y lawdriniaeth, byddwch yn mynd i'r ardal adfer. Byddwch yn aros yma am oddeutu awr ac yna'n dychwelyd i'r ward. Mae hyn yn caniatáu i chi wella o'r anesthetig. Byddwch yn gysglyd pan ddychwelwch i'r ward ac efallai yr hoffech drefnu mai dim ond ymweliad perthynas

agos a gewch gyda'r nos, fel y gallwch gael rhywfaint o amser tawel i wella. Gall perthnasau/ffrindiau eraill ffonio'r ward i ddarganfod sut ydych chi.

**Beth fydd yn digwydd ar ôl y lawdriniaeth?**

Bydd y nyrsys yn gwirio'ch pwysedd gwaed, pwls, anadlu, briw, poen a chyfaint eich wrin yn rheolaidd. Wrth i chi wella, bydd y gwiriadau hyn yn cael eu gwneud yn llai aml.

Rhestrir y tiwbiau a'r draeniau a allai fod gennych isod. Peidiwch â phoeni amdanynt, maent yno i roi hylifau i chi neu i ddraenio hylifau i ffwrdd. Byddant yn cael eu symud yn raddol, wrth i chi wella.

- **Ocsigen** Efallai y rhoddir ocsigen i chi am gyfnod byr ar ôl eich llawdriniaeth nes eich bod yn fwy effro.

- **Trwyth mewnwythiennol** – (IVI neu ddrip) – Rhoddir canwla (tiwb plastig tenau) mewn gwythïen yn eich braich a/neu yn eich gwddf a chewch hylif trwy hyn i sicrhau nad ydych chi'n dadhydradu. Gellir ei ddefnyddio hefyd i roi gwrthfiotigau mewnwythiennol, gwaed ayb. Pan fyddwch chi'n yfed a ddim yn teimlo'n sâl, tynnir yr IVI.

- **Draenio** - Bydd gennych 1 draen (tiwb) yn dod allan o'ch abdomen isaf. Mae hyn yn draenio gwaed neu hylif i ffwrdd, a all gasglu ar ôl i'ch prostad gael ei thynnu allan. Fel rheol caiff ei symud ar ôl 1-2 ddiwrnod. Os yw'n dal i ddraenio llawer o hylif, bydd yn cael ei adael i mewn ychydig hirach.

- **Cathetr** – Tiwb tenau sy'n cael ei basio i'r bledren trwy'r wrethra (pibell ddŵr) i ddraenio wrin allan. Mae hyn yn caniatáu i’ch wrin gael ei fesur. Mae'n arferol i'ch wrin fod wedi’i staenio â gwaed; peidiwch â phoeni am hyn, bydd yn clirio. Mae'r cathetr fel arfer yn cael ei dynnu ar ôl 2-3 wythnos.

- **Briw** - Bydd gennych ddresin dros y briw, y dylid ei adael yn ei le am ychydig o ddiwrnodau ar ôl y lawdriniaeth. Bydd clipiau wedi cael eu defnyddio i gadw dwy ymyl y croen gyda'i gilydd; maent yn edrych fel ystyffylau, a chânt eu tynnu 7-10 diwrnod ar ôl eich llawdriniaeth. Bydd y briw yn gwella, a thros amser bydd y graith yn pylu.

- **PCA** (Analgesia a Reolir gan Gleifion) neu **Epidwrol** i reoli'ch poen. Bydd yr anesthetydd wedi trafod y rhain gyda chi cyn y lawdriniaeth. Pan fyddwch chi'n bwyta ac yn yfed ac yn gallu cymryd cyffuriau lleddfu poen trwy'r geg, gellir tynnu'r PCA  Epidwrol. Mae'n bwysig bod eich poen yn cael ei reoli; os nad yw, gadewch i'ch nyrs gwybod.
- Anogir chi i symud o gwmpas cyn gynted â phosibl. Mae hyn er mwyn helpu i leihau cymhlethdodau fel heintiau ar y frest, doluriau pwysau neu geulad yn y goes (Thrombosis Gwythiennau Dwfn - DVT).

## Pryd alla'i fynd adref?

Fe ddylech chi fod yn barod i fynd adref ar ôl tua 3-5 diwrnod. Cyn i chi adael, dangosir i chi sut i reoli'ch cathetr a'ch bagiau cathetr adref. Rhoddir rhifau cyswllt i chi rhag ofn y bydd gennych unrhyw broblemau.

## A fydd unrhyw ddilyniant?

Fe'ch gwelir mewn clinig cleifion allanol mewn 2-3 wythnos i gael tynnu'ch cathetr. Mewn ychydig o achosion, efallai y bydd eich meddyg eisiau i chi gael systogram cyn i'ch cathetr gael ei dynnu. Pelydr-x arbennig yw hwn i wirio bod yr uniad rhwng yr wrethra a'r bledren wedi gwella'n llwyr ac nad yw'n gollwng. Os yw'n gollwng, trefnir systogram arall 1-2 wythnos yn ddiweddarach. Os nad yw'n gollwng, bydd eich cathetr yn cael ei dynnu, fel arfer ar yr un diwrnod â'ch systogram.

Cewch apwyntiad claf allanol tua 6 wythnos ar ôl eich llawdriniaeth i gael eich canlyniadau histoleg. Byddwch hefyd yn derbyn apwyntiad ar gyfer adolygiad gan y nyrs ymataliaeth.

## Gwybodaeth rhyddhau o'r ysbyty

### Gofal o'ch briw

Tynnir eich clipiau ar ôl 10 diwrnod. Bydd nyrsys y ward yn trefnu i Nyrs Ardal neu Nyrs Ymarfer eu tynnu os cewch eich rhyddhau cyn hyn. Dylai eich briw fod wedi gwella'n dda ar y tu allan erbyn yr amser hwn, ac fel rheol nid oes angen dresin. Os bydd eich briw yn mynd yn goch, yn dyner/yn boeth i'w gyffwrdd neu'n rhyddhau hylif/crawn, dywedwch wrth eich nyrs ardal neu feddyg teulu er mwyn i chi gael cyngor, oherwydd efallai eich bod wedi datblygu haint briw.

### Meddyginiaeth i fynd adref gyda chi

Efallai y rhoddir cyffuriau lleddfu poen i fynd adref gyda chi – defnyddiwch nhw yn ôl yr angen, ond ddim mwy na'r dos a argymhellir. Bydd eich nyrs yn trafod hyn gyda chi cyn i chi fynd adref. Dylech barhau i gymryd eich meddyginiaethau arferol oni bai y cynghorir chi'n wahanol.
**Gwrthfiotegau -** Byddwch yn cael y rhain i fynd adref gyda chi. Dylech **ddechrau eu cymryd** y bore y byddwch chi'n dod i gael tynnu'ch cathetr.

**Parhewch â'ch pigiadau Fragmin hyd nes bo'r cwrs 4 wythnos wedi gorffen.**

### Hosanau

Dylech barhau i'w gwisgo am 4 wythnos ar ôl eich llawdriniaeth

**Cathetr**

Bydd eich cathetr yn aros yn ei le am 2-3 wythnos. Bydd y nyrsys ar y ward yn eich dysgu sut i ofalu am eich cathetr a'r bagiau cyn i chi fynd adref. Byddant yn rhoi bagiau sbâr i chi ac yn dweud wrthych sut i gael mwy pe bai angen cyflenwadau pellach arnoch. Fe ddylech chi sicrhau eich bod chi'n golchi o amgylch y cathetr yn ddyddiol gyda dŵr a sebon. I ddynion nad ydynt wedi eu henwaedu, dylid tynnu'r blaengroen yn ôl cyn ymolchi er mwyn sicrhau bod yr ardal hon yn cael ei chadw'n lân, a gwnewch yn siŵr bob amser bod y blaengroen yn cael ei dynnu ymlaen eto wedi hynny. Rhoddir apwyntiad i chi weld y Nyrs Arbenigwr Wroleg mewn 2-3 wythnos i gael tynnu eich cathetr.

**Coluddion**

Gall rhwymedd fod yn broblem ar ôl eich llawdriniaeth, ac efallai y bydd angen carthydd arnoch nes bod pethau'n dychwelyd i normal. Gofynnwch i'ch nyrs neu feddyg am gyngor os yw hyn yn broblem.

**Ymolchi**

Gallwch gael bath neu gawod unwaith rydych adref, a dylech sychu'n ysgafn o amgylch eich briw yn hytrach na rhwbio'ch hun yn sych.

**Gyrru**

Dylech ddisgwyl am o leiaf 4-6 wythnos ac osgoi siwrneiau hir yn ystod yr amser hwn. Yna gallwch yrru pan fyddwch chi'n teimlo'n gyffyrddus i wneud stop brys. Gwiriwch â'ch Cwmni Yswiriant; mae gan rai cwmnïau ganllawiau llym ynghylch pryd y dylech chi yrru eto.

**Rhyw**

Byddwch yn gallu ailddechrau gweithgaredd rhywiol pan fyddwch chi'n teimlo'n gyffyrddus i wneud hynny, ond efallai yr hoffech aros 4-6 wythnos cyn cyfathrach rywiol i ganiatáu iachâd. Mae llawer o ddynion yn methu â chael codiad ar ôl llawdriniaeth oherwydd difrod i'r nerfau yn y llawdriniaeth; mae triniaethau ar gael i helpu i oresgyn hyn. Os ydych chi'n cael problemau, gallwch drafod hyn gyda'ch meddyg neu nyrs fel y gallwch chi gael eich gweld yn y clinig i drafod opsiynau triniaeth.

**Gwaith**

Fel rheol, gallwch ddychwelyd i'r gwaith ar ôl tua 6-8 wythnos; mae hyn yn dibynnu ar eich swydd. Efallai y bydd gweithwyr llaw angen 8-12 wythnos i ffwrdd o'r gwaith, neu os oes gennych waith sy'n cynnwys codi trwm. Dylech drafod hyn gyda'ch meddyg cyn i chi adael yr ysbyty.

Os oes angen tystysgrif salwch arnoch, dylech ofyn i nyrsys y ward am hyn. Efallai y bydd angen i chi gael tystysgrif ychwanegol gan eich meddyg teulu unwaith y bydd y dystysgrif ysbyty wedi dod i ben.

**Cyngor cyffredinol**

Byddwch yn gallu bwyta ac yfed fel arfer.
Dylech fod yn bwyllog a chymryd gofal am 4-6 wythnos, ond wedyn dylid gwneud ymarfer corff ysgafn fel cerdded, gan gynyddu'r hyn rydych chi'n ei wneud yn raddol, fel y teimlwch y gallwch chi.
Mae angen osgoi ymarfer corff egnïol am 6-8 wythnos.
Peidiwch â chodi pwysau trwm am 6-8 wythnos.

Os ydych chi'n byw ar eich pen eich hun neu'n oedrannus, efallai yr hoffech gael ffrind neu berthynas i aros gyda chi am yr ychydig ddyddiau cyntaf.
Os bydd angen help arnoch gartref ar ôl i chi gael eich rhyddhau, dylech drafod hyn yn ystod eich ymweliad cyn derbyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, gweler isod rifau cyswllt y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg:-

**Wardiau Wroleg:-**

D 2 Dwyrain:- 01633 – 234043 / 234044 (24 awr )

D 2 Gorllewin:- 01633 - 234131

**Ward Dydd Wroleg:-**

Rhif ffôn:- 01633 – 656378 / 656377
Oriau swyddfa Llun - Gwener

**Adran Cleifion Allanol Wroleg:-**
Rhif ffôn:- 01633 – 234979
Oriau swyddfa Llun – Gwener

**Nyrsys Arbenigol Uro-oncoleg: -**

Julie Simpson

Louise Broadway

Rhif Ffôn:- 01633 – 238976
( Llun – Gwener, oriau swyddfa )

**Gwybodaeth Bellach**
Mae'r elusennau canlynol yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth ysgrifenedig bellach i gleifion y canfuwyd eu bod â chanser.

**The Prostate Cancer Charity**
3 Angel Walk, London W6 9HX
Ffôn: 0800 074 8383 Llun-Gwener 1000-1600awr/Mercher 0700-1900awr
Cyfeiriad gwefan: www.prostate-cancer.org.uk

**Macmillan Cancer Support**
89 Albert Embankment, London SE1 7UQ Ffôn:
0808 808 0000 (Llun-Gwener 0900-2000)
Cyfeiriad gwefan: www.macmillan.org.uk

**Cancer Research UK**
Angel Building, 407 St John Street, London EC1V 4AD
Ffôn: (Gwasanaethau Cefnogwyr) 0300 123 1861 /(Switsfwrdd) 020 7242 0200
Cyfeiriad gwefan: www.cancerresearchuk.org

**St David's Foundation**
Cambrian House, St John's Road, Casnewydd NP19 8GR
Ffôn: 01633 270980 Cyfeiriad gwefan: www.stdavidsfoundation.co.uk

**Age Concern** - **Help a chefnogaeth i'r rhai dros 60 oed**
Age Cymru, Tŷ John Pathy, 13/14 Neptune Court, Vanguard Way, Caerdydd
CF 24 5PJ Ffôn: 02920-431555/0800 169 6565
Cyfeiriad gwefan: www.ageuk.org.uk/cymru

***Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu***
***Ffôn: 0800 085 2219***

**Progress (Grŵp Cefnogaeth Cleifion)**
Ffôn: 01633 234237 (llinell gymorth 24 awr)
E-bost: progresswales2013@gmail.com

**Cyfeiriadau**:


British Association of Urological Surgeons (2004) Procedure Specific Consent Forms for Urological Surgery

National Institute for Health and Clinical Excellence (NICE) 2010 Venous Thromboembolism: reducing the risk Tanagho EA, McAninch JW (2003) Smiths General Urology


**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English".**